Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi gwybodaeth a chyngor i Aelodau'r Cynulliad a'u cynorthwywyr am faterion y mae'r Cynulliad a'i bwyllgorau'n eu hystyried ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor a geir yn y ddogfen hon yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partïon.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide information and advice to Assembly Members and their staff in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no responsibility is accepted for any reliance placed on them by third parties

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adolygiad o'r Mesurau Seneddol (a'r Mesurau Seneddol drafft) sydd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ac y creffir arnynt o bosibl o dan Reol Sefydlog 15.6(ii)

### Diben

1. Diben y nodyn hwn yw ystyried a oes rhagor o Fesurau Seneddol gerbron Senedd y DU yn ystod y sesiwn Seneddol gyfredol neu Fesurau Seneddol drafft cyhoeddedig a fyddai'n briodol i'r Pwyllgor eu hystyried mewn cysylltiad â dirprwyo pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru.

### Cefndir

2. Yn gyntaf, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur Seneddol ynghylch Atodiadau Ardrethi Busnes ac ers hynny mae wedi ystyried y Mesur Seneddol ynghylch Prentisiaethau, Plant, Sgiliau a Dysgu; y Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir (Mesur Seneddol); y Mesur Seneddol ynghylch Cydraddoldeb a'r Mesur Seneddol ynghylch Tlodi Plant. 3. Wrth adolygu'r Mesurau Seneddol sydd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig, dim ond Mesurau Seneddol y Llywodraeth a gaiff eu hystyried gan nad yw llawer o'r gwahanol fathau o Fesurau Seneddol Aelod Preifat yn debygol o lwyddo ac mae eu cwmpas yn fwy cyfyngedig o lawer.

4. Mae nifer o'r Mesurau Seneddol eisoes wedi cael Cydsyniad Brenhinol, tra bo eraill wedi cyrraedd pwynt yn y broses sy'n golygu ei bod yn rhy hwyr i'r Cynulliad wneud cyfraniad ystyrlon. Mae eraill yn cyfeirio at faterion rhyngwladol neu ariannol ac yn gymwys ar draws y Deyrnas Unedig ac nid oes iddynt unrhyw agweddau dirprwyedig ac eithrio'r rhai sy'n ofynnol i adlewyrchu'r gwahanol systemau cyfreithiol mewn gwahanol rannau o'r DU.

### Y Mesurau Seneddol sydd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig

5. Mae'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu yn cynnwys darpariaethau cyfyngedig yn ymwneud â gweinyddiaethau datganoledig. Mae cymal 52 yn cynnwys yr unig bŵer a roddir i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud deddfwriaeth ddirprwyedig, ac mae'n ymwneud â gwybodaeth dechnegol i'w chynnwys mewn cynigion cyllidebol. Cafodd ei gyflwyno ar 20 Gorffennaf 2009, a ni phennwyd dyddiad ar gyfer ail ddarlleniad.

Mae'r Mesur Seneddol ynghylch Crwneriaid a Chyfiawnder yn cynnwys nifer fach o bwerau a ddirprwyir i Weinidogion Cymru ac ar hyn o bryd mae yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Felly, mae'n rhy hwyr i ddylanwadu ar gynnwys y Mesur Seneddol hwn.

Mae'r Mesur Seneddol ynghylch Iechyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau y gellir craffu arnynt ac mae'n aros i Dŷ'r Cyffredin ei ystyried. Bwriedir cynnal y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref.

Mae'r Mesur Seneddol ynghylch Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu yn cynnwys nifer o ddarpariaethau Cymreig a bwriedir cynnal y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref.

Mae'r Mesur Seneddol ynghylch Plismona a Throseddu yn cynnwys pwerau cyfyngedig iawn i Weinidogion Cymru a disgwylir i'r Cyfnod Pwyllgor ddod i ben yn yr ail Dŷ (Tŷ'r Arglwyddi) cyn diwedd mis Hydref.

Nid yw'r Mesur Seneddol ynghylch Gwasanaethau Post yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru. Nid yw wedi symud ymlaen y tu hwnt i'r Darlleniad Cyntaf yn yr ail Dŷ (Tŷ'r Cyffredin).

Mae'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Lles yn cynnwys pwerau cyfyngedig iawn i Weinidogion Cymru ac mae eisoes yn y Cyfnod Adrodd yn yr ail Dŷ (Tŷ'r Arglwyddi).

### Mesurau Seneddol drafft

6. Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae'n fwyfwy cyffredin erbyn hyn i Fesurau Seneddol gael eu cyhoeddi ar ffurf ddrafft cyn eu hystyried yn ffurfiol. Mae Mesurau Seneddol drafft ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â'r pynciau a ganlyn: Antarctica, llwgrwobrwyo, diwygio cyfraith sifil, data cyfathrebu, grymuso cymunedau yn Lloegr, llifogydd a dŵr, a symleiddio mewnfudo. O'r rhain, llifogydd a dŵr yw'r mwyaf addas i'w ystyried gan y Cynulliad, ond er bod fersiwn ddrafft wedi'i chyhoeddi, ni chyhoeddwyd y cymalau sy'n berthnasol i Gymru ar lifogydd ac erydu arfordirol. Felly, gellir symud ymlaen ar hyn o bryd, ond efallai bydd yn briodol ystyried y mater ymhellach yn y dyfodol

7. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei Rhaglen Ddeddfwriaethol ddrafft ar gyfer sesiwn Seneddol 2009-10. Fodd bynnag, bydd hon yn sesiwn fer gan y bydd tymor pum mlynedd y Senedd gyfredol yn dod i ben ar 10 Mai 2010. Felly, nid yw'n debygol y caiff rhaglen lawn yr eitemau a ganlyn ei chwblhau-

Y Mesur Seneddol ynghylch Gwasanaethau Ariannol a Busnes - nid yw wedi'i ddatganoli'n gyffredinol;

Y Mesur Seneddol ynghylch Economi Digidol - nid yw wedi'i ddatganoli'n gyffredinol;

Mesur Seneddol ynghylch Ynni - nid yw wedi'i ddatganoli'n gyffredinol;

Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr - ar gael ar ffurf ddrafft;

Y Mesur Seneddol ynghylch Gwella Ysgolion a Diogelu Plant- disgwylir iddo fod yn gymwys i Loegr yn unig;

Y Mesur Seneddol ynghylch Cydraddoldeb - disgwylir iddo gael ei gario drosodd o'r sesiwn gyfredol (mae'r Is-bwyllgor Deddfwriaeth eisoes wedi craffu arno);

Y Mesur Seneddol ynghylch Tlodi Plant - disgwylir iddo gael ei gario drosodd o'r sesiwn gyfredol (mae'r Is-bwyllgor Deddfwriaeth eisoes wedi craffu arno);

Y Mesur Seneddol ynghylch Plismona, Troseddau a Diogelwch Preifat- nid yw wedi'i ddatganoli'n gyffredinol;

Y Mesur Seneddol ynghylch Adnewyddu Cyfansoddiadol - disgwylir i'r agweddau datganoledig fod yn gyfyngedig;

Y Mesur Seneddol ynghylch Llwgrwobrwyo - ar gael ar ffurf ddrafft;

Y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Arfau Rhyfel Clwstwr - nid yw wedi'i ddatganoli.

8. Roedd y Rhaglen Ddeddfwriaethol Ddrafft hefyd yn cyfeirio at gynnig i gyhoeddi Mesurau Seneddol drafft ar y pynciau a ganlyn: Antarctica (eto); diwygio Tŷ'r Arglwyddi; symleiddio mewnfudo (eto); diwygio cyfraith sifil (eto); a chyfrifoldeb dros iechyd anifeiliaid a rhannu costau. Er y bydd yr un diwethaf yn arbennig o berthnasol i Gymru, bydd yn deillio o ymgynghoriad sydd newydd ddod i ben, felly nid oes fersiwn ddrafft i'r Pwyllgor edrych arni ar hyn o bryd.

9. Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi craffu ar y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr a cheir copi o'r adroddiad yn Atodiad 1.

Hefyd, ceir copïau o'r dogfennau canlynol er gwybodaeth. Mae'r Gweinidog eisoes wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cynaliadwyedd ynghylch bwriad Llywodraeth y DU i newid y Mesur Seneddol. Ceir copi o'r llythyr hwnnw yn Atodiad 2.

## Casgliad

10. O'r Mesurau Seneddol y cyfeirir atynt ym mharagraff 5 uchod, nid yw'r Mesur Seneddol ynghylch Gwasanaethau Post wedi cyrraedd pwynt yn y broses i ganiatáu i'r Pwyllgor graffu arno, ond nid yw'n cynnwys unrhyw bwerau dirprwyedig ar gyfer Gweinidogion Cymru. Dim ond un pŵer dirprwyedig i ddeddfu y mae'r Mesur Seneddol ynghylch Adnewyddu Cyfansoddiadol yn ei gynnwys, ac mae hwnnw yn ymwneud â mater technegol. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ystyried y ddau Fesur Seneddol y disgwylir iddynt gael eu cario drosodd i'r sesiwn seneddol nesaf. Ar wahân i'r Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr, nid oes un o'r Mesurau Seneddol drafft sydd ar gael ar hyn o bryd yn ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r Mesur drafft hwnnw ar gael i graffu arno, ond gan fod dal angen cynnwys nifer sylweddol o ddarpariaethau Cymreig a bod y Mesur Seneddol yn agored i newidiadau (yn unol â'r hyn a nodir yn atodiad 4), byddai'n fwy priodol i graffu arno yn y dyfodol.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Hydref 2009